



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 21 Hydref 2022

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 27 HYDREF 2022** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfanu ynglŷn ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2022 (copi ynghlwm).

10.05am – 10.10am

**5 DARPARU CONTRACT GWASANAETHAU GORFODAETH
AMGYLCHEDDOL** (Tudalennau 19 - 104)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Dros Dro Priffyrdd, a Gwasanaethau Amgylcheddol (copi ynghlwm) sy'n darparu gwybodaeth ac yn gofyn am sylwadau'r aelodau ynglŷn â'r statws presennol a chyfeiriad arfaethedig gwasanaethau gorfodi amgylcheddol ar draws y sir yn y dyfodol.

10.10am – 10.45am

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL
2021/22** (Tudalennau 105 - 136)

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (copi'n ynghlwm) sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru i'r Pwyllgor ar ei weithgareddau yn ystod 2021/22.

10.45am – 11.15am

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 137 - 158)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

11.15am – 11.30am

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

11.30am – 11.35am

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Joan Butterfield
(Cadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones
Kelly Clewett
Pauline Edwards

Y Cynghorydd Peter Scott (Is-Gadeirydd)

Terry Mendies
Raj Metri
David Williams

Bobby Feeley
Martyn Hogg

Elfed Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, RHUTHUN a THRWY GYNHADLEDD FIDEO ddydd Iau, 7 Gorffennaf 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Kelly Clewett, Pauline Edwards, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Terry Mendies, Raj Metri, Peter Scott, David Williams ac Elfed Williams

Aelodau Cabinet – Y Cyngorydd Rhys Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) yn bresennol ar gyfer eitem 7 a'r Cyngorydd Elen Heaton (Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn bresennol ar gyfer eitemau 6 ac 8.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Gwasanaethau Cymorth (AL), Uwch Archwilydd (LH), Pennaeth Cymunedau a Gwasanaethau Cwsmer (LG), Rheolwr Rhaglen - Datblygiad Tai (MD), Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth Busnes a Chymunedau (NJ), Prif Archwilydd Mewnol (BC), Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Arbenigol (AP), Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (DS), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ a KEJ [Gwe-ddarlledydd])

Croesawodd y Cadeirydd Hedd Vaughen Evans - Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Swyddfa Rheoli Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru, Stuart Whitfield - Rheolwr Rhaglen Digidol a David Matthews - Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo yn cynrychioli Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Eitem 6 ar y Rhaglen).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

Hysbyswyd yr Aelodau bod cynrychiolydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Nicola Stubbins, wedi anfon ei hymddiheuriadau. Roedd Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn bresennol i roi cefnogaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Kelly Clewett ac Elfed Williams gysylltiad personol gydag eitem 8 ar y rhaglen 'Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych'.

Y Cynghorydd Clewett fel cyflogai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a'r Cynghorydd Williams fel cyfarwyddwr Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych.

Cynghorwyd y ddau gynghorydd i gwblhau'r Ffurflenni Datgan Diddordeb gofynnol a'u cyflwyno i'r Gwasanaethau Democrataidd.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn y cyngor 2022/23. Enwebwyd y Cynghorydd Peter Scott ar gyfer y rôl gan y Cynghorydd Terry Mendies ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bobby Feeley. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Penderfynodd y Pwyllgor felly:

Ethol y Cynghorydd Peter Scott yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn gyngor 2022/23.

Diolchodd y Cynghorydd Peter Scott i'r aelodau Pwyllgor am eu cefnogaeth ac am ymddiried tymor yn Is-gadeirydd y Pwyllgor iddo.

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 eu cyflwyno.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei bod yn bresennol yn y cyfarfod a chynnig bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Materion yn codi - Holodd y Cynghorydd Peter Scott a oedd unrhyw ddatblygiadau pellach neu wybodaeth ynglŷn â'r newid i'r plaladdwr a ddefnyddir.

Eglurodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor bod y gwasanaeth wedi ad-alw'r plaladdwr oedd yn cael ei ddefnyddio a'i ddisodli gyda darparwyr gyda phlaladdwr cemegol gwahanol a oedd yn fwy effeithiol. Cymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor.

Felly:

Penderfynwyd: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 2021/22

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Elen Heaton, yr adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) ar ran yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan, Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu

Amddifadedd. Clywodd yr aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi crynodeb i'r aelodau o berfformiad blynyddol a chwarterol y gwaith yr oedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru'n ei wneud (BUEGC). Cyflwynodd swyddogion o BUEGC a oedd yn bresennol i roi cyflwyniad i'r aelodau ac i ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

Diolchodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i'r Cynghorydd Heaton am gyflwyno'r adroddiad. Darparodd swyddogion BUEGC rywfaint o gefndir ynglŷn â'r fargen dwf a phrif benawdau'r adroddiad blynyddol i'r aelodau. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y prosiectau oedd ym mhob rhaglen yn y fargen dwf. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu canllawiau am lywodraethu'r fargen dwf. Pwysleisiwyd bod swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ynghlwm â'r prosiectau. Roedd swyddogion yn mynd i gyfarfodydd byrddau prosiect i gyflwyno safbwynt Sir Ddinbych ar y prosiect dan sylw.

Gwnaeth Hedd Vaughan Evans, Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Swyddfa Rheoli Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru, gyflwyniad PowerPoint i'r aelodau. Cyflwynodd Stuart Whitfield, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, a David Matthews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, i'r Pwyllgor.

Darparwyd gwybodaeth gefndir i'r aelodau am y Bwrdd a dywedwyd wrthynt bod y Swyddfa Rhaglenni'n uniongyrchol atebol i'r Bwrdd, a oedd yn pennu cyfeiriad y gwaith ac yn gwneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol. Roedd BUEGC wedi bodoli ers 2016, yn gosod gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Roedd Cytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer y Fargen Dwf wedi'i lofnodi yn 2019 yn dilyn llawer o waith a thrafodaethau rhwng amryw swyddogion. Cafodd Swyddfa'r Portffolio ei chreu wedyn ym mis Ionawr 2020. Clywodd yr aelodau fod y Bwrdd wedi llofnodi a sicrhau'r fargen gyda'r ddwy Lywodraeth erbyn diwedd 2020, gan sicrhau buddsoddiad o £240m i Ogledd Cymru. Rhoddwyd cadarnhad bod gan y fargen dwf amcanion clir wedi'u cynnwys yn rhan o'r fargen gyda'r llywodraeth.

Cytunwyd ar fargen dwf Gogledd Cymru ar sail portffolio o 5 rhaglen; Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, Rhaglen Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo a Chysylltedd Digidol. Cyflwynwyd detholiad i'r aelodau a oedd yn crynhoi'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau. Fe wnaeth y cynrychiolwyr arwain yr aelodau drwy bob prosiect gan ddarparu rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed a'r gwaith oedd yn cael ei wneud.

Roedd yr adroddiad blynyddol wedi'i gynnwys yn y papurau a oedd yn amlygu rhai o uchafbwyntiau gweithgareddau Uchelgais Gogledd Cymru. Clywodd yr aelodau fod dros £1 miliwn o refeniw ychwanegol wedi'i sicrhau i ariannu gweithgareddau penodol a oedd yn ategu'r fargen dwf. Roedd hyn yn cynnwys grant arloesi o £500,000 mewn partneriaeth â Choleg Cambria Llysfasi i edrych ar brosiectau peilot i helpu'r sector amaeth i ddatgarboneiddio. Roedd strategaeth ynni hefyd wedi'i mabwysiadu ar gyfer Gogledd Cymru, yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru. Amlygwyd i'r aelodau bod prosiect y rhwydwaith ffeibr llawn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, a oedd yn brosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU. Roedd y prosiect yn darparu cysylltiad ffeibr llawn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Cyrhaeddwyd dros 300 o safleoedd, gan wella ansawdd a gwytnwch y cysylltiad i'r gwasanaethau'n sylweddol. Roedd 65 o

safleoedd wedi'u cysylltu yn Sir Ddinbych. Clywodd yr aelodau mai un elfen o'r prosiect oedd cefnogi ardaloedd gwledig â chysylltedd. Y gobaith, gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru, oedd ehangu cwmpas y prosiect i 28 o safleoedd eraill yn y rhanbarth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad ac am ymuno â'r cyfarfod dros y we i gyflwyno'r adroddiad. Trafodwyd yr elfennau canlynol yn fwy manwl:

- Safle strategol allweddol Bodelwyddan – roedd gwaith sylweddol yn cael ei wneud ynghlwm â'r prosiect. Gallai polisi cynllunio greu newidiadau sylweddol i'r rhai a gymeradwywyd yn wreiddiol. Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda swyddogion Sir Ddinbych i asesu'r newidiadau a byddai'r prosiect yn cael ei ailasesu yn y fargen dwf. Y gobaith oedd y byddai'r Bwrdd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r prosiect erbyn dechrau'r gaeaf. Roedd holiadur yn edrych tua'r gorwel ar y gweill i asesu unrhyw brosiectau amgen posib' i'r Bwrdd eu hystyried. Byddai BUEGC yn gwneud y penderfyniad am unrhyw newidiadau i brosiectau'r fargen dwf, gan gynnwys dileu neu newid prosiectau.
- Roedd prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel gyda Phrifysgol Bangor wedi'i sgorio fel un a fyddai'n hwyr oherwydd cais gan y Brifysgol i oedi am bedwar mis i gadarnhau cwmpas y prosiect. Nid oedd yr oediad wedi'i dderbyn gan y Bwrdd hyd yma.
- Roedd disgwyl mwy o eglurder am brosiect Fferm Net Sero Llysfasi dros y misoedd nesaf hefyd. Roedd yr awdurdod dirprwyedig gan BUEGC i benderfynu a ellid dileu prosiect o'r rhaglen.
- Roedd y cyllid ar gyfer prosiectau'r Fargen Dwf yn dod o ffynhonnell gyllid gwbl wahanol i gyllid Ffyniant Bro.
- Roedd chwyddiant yn risg a fyddai'n cael ei hystyried gan y Bwrdd. Ni fyddai'r Bwrdd yn cael rhagor o gyllid gan ddim un o'r llywodraethau. Byddai pob prosiect yn cael ei arfarnu a byddai cost chwyddiant yn cael ei chyfrif yn rhan o'r cyfrifon costau, ac unrhyw arbedion y gellid eu gwneud.
- Clywodd yr aelodau fod pob bargaen dwf angen bod â Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fel targed. Roedd wedi'i gynnwys ar bob prosiect wedi'i osod ar sail prosiectau unigol yn edrych ar y cynnydd GVA o swyddi a oedd wedi'u creu. Roedd angen ei gofnodi yn rhan o'r Fargen Dwf. Roedd y Bwrdd wedi gweld amryw fanteision, yn enwedig effaith prosiectau ar gymunedau a'r ardal.
- Nid oedd cwmpas y rhaglen Cysylltedd Digidol yn cynnwys ysgolion. Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi buddsoddi mewn cysylltedd ffeibr i ysgolion. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd yn 2019/20 yn dweud nad oedd unrhyw angen ychwanegol am gysylltedd i ysgolion yn y rhanbarth. Cafwyd cadarnhad bod y cwmni Openreach wedi'i ddefnyddio ar gyfer y cynllun. Clywodd yr aelodau fod Openreach wedi cyhoeddi ei gynlluniau ardal cyfnewidfeydd ar gyfer y DU, gan gynnwys Gogledd Cymru, yn nodi ei gynlluniau buddsoddi.
- Cadarnhawyd bod y fideo ar y prosiect Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gael ei rhannu â'r aelodau.

Rhoddodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sicrwydd bod swyddogion Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr BUEGC. Gobeithid y byddai

modd trefnu sesiwn friffio i'r Cyngor am y Fargen Dwf a'i rhaglenni er mwyn darparu gwybodaeth i'r holl Gynghorwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am y cyflwyniad manwl a'r ymatebion i sylwadau a chwestiynau'r aelodau.

Felly:

Penderfynwyd: gan ystyried y sylwadau uchod ynghyd â'r atebion a'r sicrwydd a gafwyd yn ystod y drafodaeth, derbyn Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22.

7 GWASANAETHAU DIGARTREFEDD A CHYMORTH TAI

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, adroddiad y Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd yr adroddiad ar waith y Gwasanaeth Digartrefedd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar ddarpariaeth y gwasanaeth yn Atodiad 1, wedi'i gyflwyno ar ran adran Archwilio Mewnol y Cyngor. Atgoffodd yr Aelod Arweiniol yr aelodau bod digartrefedd wedi bod ac yn parhau i fod yn fater heriol i bob awdurdod lleol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi galw am ddulliau newydd o weithredu.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wrth yr aelodau fod yr adroddiad yn un dilynol i adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor tua diwedd y llynedd. Pwysleisiwyd bod y Gwasanaeth Digartrefedd wedi mynd drwy newidiadau sylweddol yn 2021. Roedd tîm amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i gefnogi'r Tîm Digartrefedd. Ar ôl cyflwyno'r drefn newydd, roedd y Gwasanaeth wedi symud yn nes at weithredu drwy'r dull y dymunai Llywodraeth Cymru ei weld gan awdurdodau lleol. Roedd y dull hwn yn edrych ar fynd i'r afael ag effaith ehangach digartrefedd yn ogystal â cheisio sicrhau llety parhaol i bobl digartref.

Roedd y niferoedd mewn llety brys a thros dro'n parhau i fod oddeutu 180 aelwyd. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys pobl sengl neu deuluoedd. Roedd y nifer yn parhau'n gyson gan fod aelwydydd yn cael eu cefnogi. Clywodd yr aelodau mai'r pryder mwyaf i'r Gwasanaeth oedd nifer y bobl sengl dan 35 oed a oedd yn datgan eu bod yn ddigartref. Her arall oedd wedi wynebu'r tîm oedd dod o hyd i dai ar gyfer teuluoedd mwy. Yn ystod y 12–18 mis diwethaf, drwy gydweithio'n agos gyda'r Tîm Tai Cymunedol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, roedd y Gwasanaeth wedi lleoli 99 o aelwydydd mewn tenantiaethau parhaol mewn tai cymdeithasol.

Roedd gweithio gyda'r sector rhentu preifat i sefydlu cynllun sector rhentu preifat wedi bod yn her, oherwydd y newid yn y farchnad dai gyda'r cynnydd mewn galw am eiddo rhent. Roedd Llywodraeth Cymru wedyn wedi newid y cynllun yr oedd y Tîm Digartrefedd wrthi'n ei gyflwyno.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod gofyn i swyddogion ddatblygu dull ailgartrefu cyflym. Roedd gwaith wedi dechrau i ddatblygu cynllun cychwynnol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd ailgartrefu cyflym yn golygu unigolyn a fyddai'n dod i mewn i'r system ddigartrefedd, yn cael ei asesu, wedyn byddai tenantiaeth yn cael ei chanfod ar ei gyfer a byddai'r Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl gymorth angenrheidiol ar gael i'r unigolyn. Y gobaith oedd y byddai hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio llety brys.

Roedd contract wedi'i ddyfarnu'n ddiweddar i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal. Drwy gyllid y grant cymorth tai, roedd y Gwasanaeth wedi caffael contract a oedd wedi'i ffurfio o gytundeb partneriaeth i gefnogi unigolion ac atal pobl rhag mynd yn ddigartref. Roedd y contract wedi'i ddyfarnu ym mis Ebrill 2022 ac roedd ar fin dod yn weithredol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod niferoedd y rhai oedd yn cysgu allan yn Sir Ddinbych yn gymharol isel. Roedd y swyddogion yn ymwybodol o'r unigolion hynny a oedd yn dewis cysgu allan, felly roedd pob ymdrech yn cael ei gwneud i gefnogi a rheoli'r bobl hynny a oedd yn cadw cysylltiad â phob unigolyn. Roedd aelwydydd oedd yn dod at y Gwasanaeth Digartrefedd fel arfer yn gwneud hynny o ganlyniad i golli tenantiaeth ar eiddo.

Cadarnhaodd yr Uwch Archwilydd fod yr archwiliad gwreiddiol o ddarpariaeth llety digartrefedd wedi dod i ben fis Mawrth 2020 ac roedd yn nodi 7 risg a phroblem, a 2 o'r rheiny'n risgiau mawr. Codwyd y sgôr sicrwydd isel oherwydd y risgiau sylweddol a nodwyd. Cynhaliwyd yr adolygiad archwilio dilynol cyntaf a bu ger bron y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Rhagfyr 2021. Roedd yr archwiliad dilynol yn dangos nifer o welliannau ond roedd wedi cymryd mwy o amser i gyflawni'r gwelliannau, felly roedd y sgôr sicrwydd isel yn parhau. Nodai'r ail adolygiad dilynol fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Dim ond 5 o'r 18 cam gweithredu oedd ar ôl. Roedd y tri phrif faes i'w gwella oedd ar ôl yn ymwneud â chofnodi adolygiadau achosion a chyflwyno gweithdrefnau ysgrifenedig. Yn dilyn yr ail adolygiad, roedd y sgôr sicrwydd wedi codi i sgôr ganolog. Roedd adolygiad arall wedi'i drefnu at fis Rhagfyr 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am y papurau manwl. Darparodd y swyddogion ragor o wybodaeth am y pwyntiau canlynol a godwyd gan aelodau:

- Roedd gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn parhau i gael eu darparu. Roedd Tai yn Gyntaf yn cael ei gynnis i'r rhai digartref mwyaf di-newid eu harferion, a oedd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Roedd yn wasanaeth mwy hirdymor a gynigai gymorth bob awr o bob dydd. Roedd yn darparu cymorth dwys parhaus. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu ac ar hyn o bryd yn parhau i ddarparu cyllid. Roedd y model ailgartrefu cyflym yn cynnwys darpariaeth o fath Tai yn Gyntaf.
- Roedd rhai dan 35 oed yn parhau'n bryder i'r Gwasanaeth Digartrefedd gan nad oedd ganddynt ond hawl i gyfraddau lwfans tai lleol ar gyfer budd-dal tai. Roedd yn is na'r hyn a oedd fel arfer yn fforddiadwy i'r unigolion hynny. Nid oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yr oedd disgwyl iddynt newid lefel budd-daliadau.
- Yn dilyn y pandemig Covid, roedd nifer yr aelwydydd a oedd yn troi'n ddigartref wedi parhau'n gyson, heb ostwng na chynyddu.
- Roedd sgôr sicrwydd uchel wedi'i hystyried gan Archwilio Mewnol yn dilyn yr adolygiad diweddar, ond gan fod dau gam gweithredu ar ôl ynghlwm â risgiau mawr, cadwyd y sgôr ar sicrwydd ganolog. Pe bai cynnydd yn parhau fel yr oedd wedi eisoes, y gobaith oedd cael sgôr sicrwydd uchel yn yr adolygiad nesaf.

- Cyfyngedig oedd llety brys mewn ardaloedd gwledig. Roedd y Gwasanaeth yn ceisio rhoi llety i aelwydydd yn yr ardaloedd roeddent yn gofyn amdanynt, ond nid oedd modd gwneud hynny bob tro.
- Roedd galw am dai cymdeithasol yn cael ei fonitro ar draws y sir gyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r galw i'w weld yng ngogledd y sir. Roedd y gyfraith yn dweud mai ond y sir roeddent yn ei ffafrio ar gyfer tŷ cymdeithasol yr oedd modd i unigolion ei nodi, ond roedd yr awdurdod lleol yn gwneud pob ymdrech i gynnig llety yn yr ardaloedd yr oedd yr unigolyn yn eu ffafrio lle bo modd. Pan oedd tai cymdeithasol ar gael, roedd y Tîm Digartrefedd yn cael y cynnig cyntaf i'w gynnig i aelwydydd posib'.
- Atgoffwyd yr aelodau bod polisi ar waith i brynu hen eiddo'r Cyngor yn ôl – rhai a oedd wedi'u prynu yn rhan o'r Cynllun Hawl i Brynu. Pan oedd y tai hynny'n cael eu rhoi ar y farchnad, roedd yr Awdurdod yn ystyried eu prynu.
- Roedd y Tîm yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau ac roeddent yn cael mynediad at ddata a allai ddynodi aelwydydd a allai fod mewn perygl o ddigartrefedd. Roedd y gwaith hwn wedi'i wneud fel cynllun peilot ac roedd wedi bod yn llwyddiannus. Clywodd yr aelodau fod y Tîm yn aml yn dibynnu ar deuluoedd yn cyfathrebu â'r Tîm i gael cymorth. Y gobaith oedd y byddai'r gwaith ymyrraeth gynnar hwn yn fuddiol i gefnogi teuluoedd ac unigolion wrth iddynt wynebu anawsterau, gan eu hannog i gysylltu â'r Gwasanaeth mor fuan â phosib' i geisio osgoi argyfwng am le i fyw yn nes ymlaen.
- Lle'r oedd aelwydydd angen eiddo wedi'i addasu, roedd tîm o swyddogion yn cefnogi unigolion ac yn gweithio'n agos gyda'r teulu i asesu anghenion a pha gymorth roeddent ei angen. Roedd llety brys i aelwydydd oedd ag anghenion ychwanegol wedi bod yn broblem. Roedd llety a oedd eisoes yn eiddo i'r Cyngor yn aml yn cael ei addasu ar gyfer anghenion aelwydydd.
- Sefydlwyd fforwm landlordiaid y sector rhentu preifat er mwyn i swyddogion allu cyfathrebu â landlordiaid a phartneriaid i sôn am anghenion a thrafod pryderon.
- Roedd angen i landlordiaid fod wedi cofrestru â Rhentu Doeth Cymru. Roedd yn un o'r amodau yr oedd swyddogion yn eu hasesu wrth drefnu tenantiaethau gyda landlordiaid.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am yr adroddiad manwl, ac i'r swyddogion a'r timau am y gefnogaeth barhaus i unigolion ac aelwydydd.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

Penderfynwyd: gan ystyried yr uchod –

- (i) bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau bod cyflwyno'r gwasanaeth digartrefedd amlddisgyblaethol a dull traws-wasanaeth Corfforaethol yn unol â gweledigaeth ddigartrefedd a chymorth tai Llywodraeth Cymru, a'i fod yn cyfrannu at nod y Gwasanaeth Atal Digartrefedd i sicrhau bod pawb yn cael eu diogelu a'u cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu gofynion; ac***
- (ii) ar ôl adolygu'r cynnydd sylweddol a wnaed i fynd i'r afael â'r camau gweithredu o'r archwiliad, fod y Pwyllgor bellach yn fodlon bod unrhyw***

adroddiadau diweddarau eraill ar gynnydd y cynllun gwella'n cael eu cyflwyno o hynny ymlaen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) i'r aelodau. Roedd yr adroddiad yn trafod y cyfnod o fis Ebrill 2021 tan fis Mawrth 2022. Yn ei barn hi, roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith caled a oedd wedi'i fuddsoddi i gynnal y gwelliant i ansawdd a chysondeb gwaith diogelu yn Sir Ddinbych. Canmolodd y staff am eu gwaith a'u cyflawniadau.

Fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaeth Arbenigol arwain yr aelodau drwy'r adroddiad. Rhoddodd drosolwg o berfformiad y tîm dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr adroddiad yn manylu ar weithgareddau'r Tîm gan ganolbwyntio ar gynnal gwelliannau o ran cysondeb ansawdd y gwaith diogelu, gan gynnwys perfformiad o ran dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru i gwblhau ymholiadau o fewn 7 diwrnod gwaith. Roedd swyddogion yn falch o roi gwybod i'r Pwyllgor bod perfformiad Sir Ddinbych ar y dangosydd hwn yn parhau i fod yn uchel, ar 99.7% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos sut roedd y tîm wedi bod yn cyflwyno gweithdrefnau Diogelu Cymru'n llawn, oedd yn cynnwys adroddiadau neu atgyfeiriadau oedd yn ymwneud ag unigolion mewn swyddi o ymddiriedaeth. Arweiniwyd yr aelodau i atodiad 2 ynghlwm wrth yr adroddiad, oedd yn rhoi mwy o fanylion ar ffurf astudiaeth achos o atgyfeiriad Unigolyn mewn Swydd o Ymddiriedaeth a dderbyniwyd. Roedd atodiad 3 yn darparu manylion i'r Pwyllgor ar 'Adran 5: Canllaw Ymarfer Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr a'r Rhai mewn Swyddi o Ymddiriedaeth'. Pwysleisiwyd bod gweithredu'r maes hwn o ddiogelu'n gymharol newydd o fewn gweithdrefnau Cymru ac roedd ar adegau wedi bod yn heriol i'r Tîm Diogelu.

Roedd yr adroddiad yn darparu data i'r aelodau, yn cynnwys nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd dros y 3 blynedd ddiwethaf. Nodwyd bod nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng ers y pandemig COVID ond nid oedd yn achosi pryder i swyddogion. Roedd patrymau tebyg wedi bod mewn awdurdodau cyfagos. Roedd y Tîm wedi derbyn nifer o alwadau gan ddarparwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol eraill yn gofyn am gyngor ac arweiniad.

Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Darparwyd ystadegau i'r aelodau'n dangos cynnydd yn nifer y galwadau a gafwyd yn y maes hwn. Roedd y ceisiadau'n dod yn bennaf gan gartrefi gofal a chartrefi nyrso ac roeddent yn bennaf yn ymwneud ag unigolion a oedd heb y gallu i wneud penderfyniad i fyw mewn cartref gofal. Felly, roedd angen asesiad i sicrhau bod y lleoliad er budd pennaf yr unigolyn. Arweiniwyd yr aelodau drwy'r prif gyflawniadau dros y 12 mis fel y nodai'r adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, trafodwyd y pwyntiau canlynol yn fwy manwl:

- Roedd y ffigyrau am atgyfeiriadau o gam-drin mewn cartrefi gofal yn uchel gan fod yr unigolion yn y sefydliadau hyn yn fregus. Roedd

dyletswydd ar staff i roi gwybod am unrhyw arwydd o gam-drin tybiedig. Nid oedd nifer yr atgyfeiriadau'n golygu bod mwy o gam-drin ynddynt nag mewn sefydliadau eraill. Roedd y data'n ymwneud â nifer yr atgyfeiriadau ac nid oedd bob amser yn golygu bod camdriniaeth.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod rhestr aros i geisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oedd yn cael eu derbyn. Roedd y galw'n uchel ac roedd y rhestr aros yn cael ei hadolygu'n gyson a'i rheoli gan y Tîm Diogelu.
- Cadarnhawyd bod dau Asesydd Budd Pennaf wedi'u recriwtio dros dro i geisio lleihau'r rhestr aros wrth baratol at gyflwyno'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn 2023.
- Roedd ymarfer adolygu ac ailfodelu'r Tîm yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Byddai rhan o'r adolygiad hwnnw'n edrych ar ba adnoddau y byddai'r tîm eu hangen yn y dyfodol.
- Roedd recriwtio a dal gafael ar staff cymwys ym mhob rhan o faes gofal cymdeithasol yn heriol iawn ar hyn o bryd. Roedd swyddogion corfforaethol yn ymwybodol o'r heriau ac yn trafod camau i gefnogi a gwella'r gwasanaeth yn rheolaidd. Roedd yr heriau'n rhai oedd i'w gweld ar hyd a lled y DU.
- Awdurdodau lleol oedd y sefydliad arweiniol cyrifol i asesu pryderon diogelu oedolion. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â diogelu oedolion yn unig. Pe bai trydydd parti'n rhoi gwybod am bryder diogelu, byddai'n cael ei anfon i Adran Ddiogelu Sir Ddinbych i ymchwilio iddo, ble bynnag roedd yr achos honedig wedi digwydd. Byddai'r Cyngor wedyn yn cydweithio â'r holl asiantaethau partner i gynnal yr ymchwiliad. Roedd y model hwn o adrodd ar waith yn holl awdurdodau eraill Cymru.
- Mae Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych yn gyfarfod misol o asiantaethau partner lle mae data diogelu ac unrhyw dueddiadau'n cael eu rhannu a'u trafod a'u meincodi yn erbyn ystadegau cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) lle bo'n briodol. Mae'r Grŵp Cyflawni yn bwydo drwodd i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Bu i'r aelodau longyfarch y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaeth Arbenigol ar ennill gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg yn gynharach eleni.

Felly:

Penderfynwyd: gan ystyried y sylwadau uchod –

- (i) derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad;***
- (ii) cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl; a***
- (iii) chyfrifoldeb y Cyngor i ystyried y mater hwn yn faes blaenoriaeth allweddol.***

9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r

aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd adolygu gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl eitemau roedd yr aelodau wedi gwneud cais i'w trafod.

Roedd ffurflen gais am fater Craffu wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad yn atodiad 2. Eglurodd y Cydlynnydd Craffu y dylai'r aelodau lenwi'r ffurflen gais os oedd ganddynt eitem yr hoffent iddi gael ei thrafod. Byddai'r ffurflen wedyn yn cael ei hadolygu gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu a benderfynai a oedd y pwnc yn un addas i Bwyllgor Craffu neu fforwm arall. Roedd cyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi'i drefnu at 28 Gorffennaf 2022.

Roedd y rhaglen gyfredol o waith i'r dyfodol (atodiad 1) wedi'i derbyn gan y pwyllgor blaenorol. Wedi'i gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod ar 15 Medi oedd Adroddiad Blynnyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar ei weithgareddau. Clywodd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi'i ddynodi fel Pwyllgor Craffu'r Cyngor ar gyfer trosedd ac anhrefn ac roedd yn derbyn yr adroddiad yn flynyddol. Hefyd ar raglen waith mis Medi oedd adroddiad ar Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych – disgwylid am gadarnhad i ddweud y byddent yn y cyfarfod. Roedd y Pwyllgor blaenorol wedi derbyn adroddiad ac wedi gofyn i adroddiad diweddarau gael ei ddarparu i aelodau er gwybodaeth. Roedd y Cadeirydd yn meddwl y byddai'n fuddiol derbyn adroddiad diweddarau, a chytunai'r aelodau.

Roedd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn atodiad 3 er gwybodaeth i'r aelodau.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth yr aelodau nad oedd eitem sefydlog Adborth gan Gynrychiolwyr Pwyllgorau ar Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor wedi'i chynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod gan nad oedd unrhyw gynrychiolwyr wedi'u penodi hyd yma i wasanaethu ar unrhyw Fyrddau na Grwpiau. Pwrpas yr eitem honno oedd rhoi cyfle i aelodau adrodd yn ôl o'r cyfarfodydd roeddent yn mynd iddynt.

Clywodd yr aelodau y byddai'r Pwyllgor yn cynnal rhag-gyfarfod cynllunio cyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor yn y cyfnod cyn Covid. Byddai'r rhain yn caniatáu i'r aelodau amlygu a thrafod pryderon roeddent yn dymuno eu codi yn y cyfarfod. Awgrymodd y Cydlynnydd Craffu, os oedd yr aelodau'n meddwl y byddai'r rhain yn fuddiol, y gellid trefnu cyfarfod rhithiol ar gyfer aelodau'r pwyllgor ddiwrnod neu ddau cyn y cyfarfod. Diolchodd yr aelodau i'r Cydlynnydd Craffu ac roeddent yn meddwl y byddai rhag-gyfarfod yn fuddiol i'r aelodau, yn enwedig rhai oedd yn newydd i Graffu.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd ei bod yn rhaid cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus oedd angen cael eu gwe-ddarlledu o Siambr y Cyngor yn Rhuthun gan mai dyna'r unig safle oedd â'r cyfarpar angenrheidiol. Atgoffodd yr aelodau mai'r broses a fabwysiadodd y Cyngor Llawn oedd i aelodau a swyddogion fynychu cyfarfodydd o'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer eu llwyth gwaith nhw – dros y we neu wyneb yn wyneb. Felly:

Penderfynwyd: gan ystyried yr uchod –

- (i) y dylid cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol ddrafft y Pwyllgor, fel yr oedd yn atodiad 1 i'r adroddiad; a***
- (ii) threfnu rhag-gyfarfod cynllunio i holl aelodau'r Pwyllgor cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi 2022.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y cyfarfod	27 Hydref 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Cyng. Barry Mellor: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Andy Clark: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Dros Dro / Jamie Lees: Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu Dros dro.
Awdur yr adroddiad	Tara Dumas (Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu)
Teitl	Diweddariad ar Ddarpariaeth Contract Gwasanaethau Gorfodi Amgylcheddol, a ddarparwyd gan 'District Enforcement Limited'

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Ym mis Hydref 2019, dyfarnodd y Cyngor gontract dwy flynedd (ynghyd ag estyniad o flwyddyn) ar gyfer patrolau gorfodi amgylcheddol i 'District Enforcement' (DE).
- 1.2. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y trefniant hwn drwy gontract allanol ar ddiwedd cyfnod y contract, ac mae'n manylu ar y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth barhaus y gwasanaethau hyn ar draws ardal Sir Ddinbych, gan amlygu'r risgiau i'r trefniant hwn drwy gontract allanol a sut mae'r risgiau hynny yn cael eu rheoli.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch statws presennol a chyfeiriad arfaethedig y Gwasanaeth Gorfodi Amgylcheddol yn y dyfodol, a'r swyddogaethau ehangach sy'n ymwneud ag atal niwed amgylcheddol lefel isel.
- 2.2. Rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu a gwneud sylwadau ar yr adroddiad penderfyniad dirprwyedig drafft sy'n cynnig nifer o newidiadau i swm y Rhybudd Cosb Benodedig, sy'n ymwneud ag ystod o droseddau amgylcheddol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1. ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad, gan gynnwys yr amrywiad Contract sy'n ymestyn y trefniant allanol presennol gyda DE tan 9 Hydref 2024, a rhoi sylwadau yn unol â hynny; a
- 3.2. ystyried a chymeradwyo'r adroddiad penderfyniad dirprwyedig "*Adolygiad o symiau dirwyon rhybudd cosb benodedig Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer troseddau amgylcheddol*" fel y gall y Cyngor barhau i ddarparu patrolau gorfodi amgylcheddol trwy drefniant cost niwtral (mae **Atodiad I** yn cyfeirio at hyn).

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Cefndir

Mae darparwr y gwasanaeth yn darparu patrolau gan swyddogion Gorfodi Amgylcheddol ledled y sir (tir mynediad cyhoeddus) er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyhoeddi Rhybuddion Cosb Benodedig (RhCB) ar gyfer troseddau amgylcheddol lefel isel. Mae mwyafrif y troseddau yn ymwneud â thafllu sbwriel a thorri Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Sir Ddinbych (Rheoli Cŵn). Maent hefyd yn rhoi Rhybuddion Cosb Benodedig am droseddau amgylcheddol eraill gan gynnwys gosod posterï'n anghyfreithlon a graffiti a gorfodi deddfwriaeth ddi-fwg. Mae'r darparwr gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ystod o gymorth cefn swyddfa mewn perthynas â Chosbau Penodedig, gan gynnwys rheoli cyfraddau taliadau a pharatoi ffeiliau achos ar gyfer erlyniadau posibl (am beidio â thalu Rhybuddion Cosb Benodedig a cherdded i ffwrdd heb dderbyn y ddirwy) Mae hefyd yn ofynnol iddynt fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwynion a sylwadau gan y cyhoedd.

4.2. Gwerth y contract:

Mae gwerth y contract ymhell o dan drothwy Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016. Nid yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw daliad i'r contractwr ac mae'r Contractwr yn cadw'r holl incwm o'r Rhybuddion Cosb Benodedig. Mae cyfraddau talu ar hyn o bryd yn 85%. Mae unrhyw ddyfarniad a sicrheir drwy ddirwyon sydd heb eu talu (o achosion a ddilynir drwy'r Llys Ynadon) gan y Cyngor yn cael ei gadw gan y Cyngor.

Cafodd contract 2019 ei gaffael drwy'r Porth Gwerthwchi Gymru ac yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau y Cyngor. 'District Enforcement' oedd yr unig gwmni i gyflwyno tendr. Tynnodd y contractwr blaenorol yn ôl o'i drefniant cytundebol, a oedd yn cwmpasu ardal ehangach, gan gynnwys Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru oherwydd pwysau cyhoeddus a gwleidyddol.

4.3. Amrywiadau'r Contract

Daeth tri amrywiad i fanylion contract 2019 i rym ar 10 Hydref 2022

- I. Ymestyn y contract presennol am 24 mis (Amrywiad Sylweddol) tan 9 Hydref 2024.
- II. Ehangu cwmpas y contract drwy gynnwys dau faes ychwanegol o orfodi amgylcheddol – i ddechrau drwy ddau gynllun peilot chwe mis. (Nid yw'n cael ei ystyried yn amrywiad sylweddol);
- III. Cynnwys cymal "*terfynu er hwylustod*", sy'n galluogi'r contractwr i derfynu'r contract gyda 12 wythnos o rybudd, pe bai'r contract yn methu â bod yn ymarferol yn fasnachol iddynt. (Nid yw'n cael ei ystyried yn amrywiad sylweddol);

Mae **Atodiad II** yn rhoi'r rhesymeg dros fabwysiadu'r Amrywiadau i gyfnod estynedig y contract. (**Mae Atodiad II wedi'i eithrio rhag datgeliad cyhoeddus yn rhinwedd Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972**).

4.4. Perfformiad y Contract a phartneriaeth Cyngor Sir Ddinbych / DE

Mae **Atodiad III** yn manylu ar berfformiad diweddaraf contract DE (mis Ebrill i fis Medi 2022). I grynhoi:

Rhodddwyd 473 o rybuddion cosb benodedig rhwng 1 Ebrill a 30 Medi.

Rhodddwyd 63% am droseddau taflu sbwriel

Rhodddwyd 36 % am droseddau Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (rheoli cŵn).

Rhodddwyd 1 % am droseddau yn ymwneud ag ysmegu

Mae 'District Enforcement' ar hyn o bryd yn cyflawni cyfradd talu o 85.5% ar Rybuddion Cosb Benodedig a roddwyd yn ardal Sir Ddinbych.

Nodwyd nifer o feysydd gwella yn ystod yr adolygiad blynyddol ym mis Mai 2022. Mae **Atodiad III** yn amlygu cynnydd DE wrth fynd i'r afael â'r gwelliannau hyn, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol i staff, a diweddarau gweithdrefnau cefn swyddfa i wella amseroedd ymateb i sylwadau cwsmeriaid. Yn ogystal, mae'r

Cyngor wedi cynhyrchu deunyddiau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn). Ceir enghreifftiau o arwyddion newydd, gwell a "menter gwobrau Perchnogion Cŵn cyfrifol" yn **Atodiad IV**.

Mae 'District Enforcement' bellach yn gweithredu dull a arweinir gan wybodaeth at batrolau cynllunio, ac mae'n cynnwys manau â phroblem y mae'r cyhoedd yn rhoi gwybod inni amdanynt. Ceir enghraifft o gynllun patrôl yn adroddiad hanner blwyddyn DE (**Atodiad III**).

Cynhelir cyfarfodydd contract rheolaidd i adolygu perfformiad a chynlluniau patrôl, a thrafod mentrau newid ymddygiad sy'n berthnasol i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol lefel isel.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Drwy barhau i weithio mewn partneriaeth â darparwr gwasanaethau sector preifat, mae'r trefniadau rheoli contract gwell a'r Amrywiadau diweddar yn sicrhau ein bod yn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a reolir yn dda, yn unol â gofynion y Cynllun Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Argymhellir yn gryf bod gweithgareddau'r swyddogion patrôl a thîm gorfodi'r Cyngor ei hun yn cael eu marchnata'n weithredol er mwyn hybu ymddygiad amgylcheddol cyfrifol yn well. Mae cynnig Cronfa Ffyniant Cyffredin drafft wedi'i ddatblygu i ddarparu adnoddau ychwanegol o fewn y cyngor i wella'r gwaith ymgysylltu ac addysg, er mwyn ategu ymrwymadau'r darparwr gwasanaeth ei hun. Ar adeg ysgrifennu, nid yw canlyniad y cais am gyllid yn hysbys. Mae rheoli'r swyddogaeth (waeth a yw gwasanaethau patrôl yn cael eu darparu'n allanol neu'n fewnol) wedi'i nodi fel gwasgfa cyllideb sy'n cael ei reoli'n fewnol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Mae Asesiad o'r Effaith ar les ar gyfer newidiadau i symiau Rhybudd Cosb Benodedig wedi'i gynnal a cheir manylion amdano yn yr Adroddiad Penderfyniad Dirprwyedig.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Cyflwynwyd manylion y contract cychwynol i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a'i chymeradwyo ganddo ar 14 Chwefror 2019, ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo i

roi'r swyddogaeth hon drwy contract allanol ar 25 Medi 2018. Cymeradwyodd y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol yr adroddiad amrywiad contract dilynol i ymestyn cyfnod a chwmpas y contract yn gynharach y mis hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i ddyfarnu'r contract gan ei fod yn niwtral o ran cost ac yn cael ei reoli drwy gytundeb lefel gwasanaeth. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad bydd unrhyw newidiadau ychwanegol a ddymunir o ran staffio yn cael eu rheoli o fewn cyllideb gyffredinol y gwasanaeth.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae 7 risg yn bodoli gyda'r trefniant allanol cyfredol (gweler **Atodiad V**). Ar hyn o bryd mae 3 risg oren y mae'r Gwasanaeth yn hyderus y gellir eu rheoli i lawr i risgiau isel trwy adnoddau ychwanegol a rheoli contractau.

10.2. Ar hyn o bryd mae 1 risg coch; bod DE yn dwyn i gof y cymal "terfynu er hwylustod" ar ôl Ionawr 2023, os yw'r trefniant yn parhau i fod yn ariannol-anymarferol iddynt. Bydd yr adolygiad presennol o lefelau taliadau rhybudd cosb benodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol yn hollbwysig i leihau'r risg hon.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Ni cheisir penderfyniad yn yr adroddiad hwn. Mae cynnig i ddiwygio taliadau Rhybudd Cosb Benodedig yn fyw ar hyn o bryd drwy adroddiad penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol.

11.2. Mae pwerau craffu mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi, rheoli perfformiad ac asesu effaith polisiau a phenderfyniadau ar drigolion yr ardal wedi'u nodi yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol, 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

12. Atodiadau

12.1. Atodiad I: Adroddiad Penderfyniad Dirprwyedig Drafft i Newid symiau Rhybudd Cosb Benodedig.

- 12.2. Atodiad II: Amrywiadau Contract mis Hydref 2022 (mae'r atodiad hwn wedi'i eithrio rhag datgeliad cyhoeddus yn rhinwedd Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972).
- 12.3. Atodiad III: Adroddiad Perfformiad 'District Enforcement' rhwng mis Ebrill a mis Medi 2022.
- 12.4. Atodiad IV: Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd.
- 12.5. Atodiad V: Matrics risg (Patrolau Gorfodi Amgylcheddol).

Appendix I: Draft delegated decision report for amending Fixed Penalty Notice amounts (Partnerships Scrutiny Committee consultation)



Decision taken by:	Councillor Barry Mellor, Lead Member for Environment and Transport
Date of decision:	ASAP post consultation with Partnership Scrutiny
Decision:	Review of the range of Fixed Penalty Notices issued by, or on behalf of the Council to aid the enforcement of environmental Crime

1. What is the report about?

This report details amendments to Fixed Penalty Notice charges for a range of environmental offences and the justification for the proposed changes.

The report also outlines the inclusion of new (2019) powers to issue fixed penalty notices for Householder Duty of Care offences, in order to help officers to resolve domestic fly tip investigations more effectively.

2. What is the reason for making this report?

- 2.1. There is an urgent need to review the Fixed Penalty Notice charges within Highways and Environmental Services to help mitigate a number of financial and resource risks identified within the function of Environmental Enforcement (**Appendix I** refers).
- 2.2. The decision to authorise council officers to offer Fixed Penalty Notices for breaches of Householder Duty of Care offences can be taken by the Head of Highways, Facilities and Environmental Services. However, it was deemed appropriate to enable the Lead Member for Environmental Crime to consider the decision, due to the impact on local residents. Enforcement Officers within Waste and Recycling Services already have the powers to prosecute offenders under the legislation. This ability to offer Fixed Penalty Notices will ensure compliance with the statutory guidance set out in the Regulators' Code, as it will enable officers to consider proportionality to a greater degree. This will make sure that only more deliberate or serious offences are prosecuted through the courts.

3. What are the Recommendations?

- 3.1 That the Lead member endorses that the Interim Head of Highways and Environmental Services adopts new powers and provides authorisation to designated officers within the council to issue Fixed Penalty Notices for

Householder Duty of Care offences (Under Section 34 (2A) of the Environmental Protection Act, 1990).

3.2 That the amended Fixed Penalty charges set out in **Appendix I** to be adopted by the Council 1st January 2023 (Part 2 item).

4. Report details

4.1 Householder Duty of Care

In 2019, the powers to issue a fixed penalty to householders who fail to take reasonable steps to ensure that their waste is disposed of legally was given to Local Authorities. The Council investigates offences on a regular basis where residents have passed their waste onto another individual for disposal and the waste has been found illegally dumped in the North Wales region.

4.1.1. Application of the Legislation

If a householder fails to take reasonable steps to ensure their waste is taken away by an authorised person and their waste is subsequently found fly tipped, they have breached their Householder Duty of Care and could be prosecuted, being liable on conviction to a fine of up to £5000.

Investigations can be complex and time consuming, requiring significant staffing resources from enforcement officers in the Waste Service and legal teams. There are no guarantees that this effort leads to a successful prosecution and often the cost of taking a case before a court is not fully recovered through the award of court costs. The ability to offer a fixed penalty in these circumstances provides the offender with a less costly option and will free up considerable officer time.

4.1.2 Fixed Penalty Fine Level

The default fine level set by the Government is £300. It is proposed to offer an early payment discount of £150. This is because officers have considered the economic circumstances of previous offenders and their ability to pay the fixed penalty and balanced this against the need to deter non-compliant behaviours. It is also recognised that in most cases the householder can also be the victim, as they may have given their waste to a contractor who has misled them. It is proposed that the Fly tipping fine level is amended from £250 to £400 to reflect the increased severity of this deliberate offence.

There is a lower likelihood that further legal action will be required through non-payment of fines if they are more affordable. The early payment option for householder duty of care offences provides a more affordable route. This charge level is still considered to be a powerful deterrent for low level offences. However, in adherence to DEFRA guidance it is important to note that the prosecution route will be followed by the Council if the Householder knowingly gave their waste to an unauthorised person, or was aware the waste would not be disposed of legally. Repeat offenders and non-payment would also evoke the prosecution route.

If the officer believes that the householder was misled by a rogue trader, and evidence supplied by the householder leads to identification and/or prosecution of said rogue trader, then the officer will prioritise bringing the fly tipper to justice, as opposed to the householder, issuing a formal warning to the householder for the breach.

4.1.3 Raising Public Awareness of Householder Duty of Care compliance requirements

Certain responsibilities defined under householder duty of care is not widely recognised by the general public, and some householders may unknowingly commit an offence if they contract tradespeople or waste removal services who subsequently dump waste passed to them by the householder. There are a number of checks residents can take to ensure a waste carrier is legitimate. These include:

- Ask the waste carrier to provide their full name, address and phone number.
- Ask to see their Waste Carrier License, which would be issued by the Environment Agency or Natural Resources Wales. If they are unable to produce it, they may not be legal.
- Check for registered waste carriers on the Natural Resources Wales website
- Ask for a headed receipt – a genuine company will supply one as a matter of course.
- Ask where they take your waste - a genuine company will be able to show you transfer notes from the waste recycling centre they use.
- Get quotes from different waste carriers – if one or two are substantially cheaper, ask why. If the price quoted seems too good to be true, it probably is.
- Take a note of the registration number of the vehicle that removes their waste.

The Council will continue to promote these responsibilities through Social Media, the Council website, Leaflets at Builders Merchants and DIY stores, County Voice, press releases and direct mail. An example of communications material prepared to promote responsible behaviours to residents in detailed in **Appendix III**.

OR1	Failure to recruit and retain adequate numbers of Patrol Officers	Current Workforce Market/ public aggression deters new recruits	DE unable to field adequate patrols to meet contract specification, leading to contractual default and lack of enforcement presence.	Jun-22	DE	3	3	9	DE are a UK wide company, able to utilise mobile officers in the event of staff sickness or shortages.	on going	DE are reviewing contracts with staff to make their employment offer more attractive. Planned positive news stories and enhanced education work will help gain wider public acceptance; Review of FPNs (proposal to provide lower early payment options for some PSPO offences should curtail aggressive behaviours from those issued with dog exclusion zone/dogs off lead FPNs.	2	3	6

Key

Likelihood Risk Ratings	
Highest Risk/ Very Likely	5
Likely	4
Equally Possible	3
Possible but unlikely	2
Lowest Risk highly unlikely	1

Impact Scores	
Likely to Lead to Contract Termination	5
Significantly alters contract cost or risk profile	4
Impacts are problematic but manageable	3
Lower order impacts	2
Impacts are negligible	1

Risk Scores

- Scores between 1-8
- Scores between 9-15
- Scores between 15-25

CM = Contract Manager
 DE = District Enforcement (Service Provider)
 LS = DCC Legal Services
 HoS = Head of HFES

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod	27 Hydref 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr Adroddiad	Catrin Roberts, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol
Teitl	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae yr adroddiad hwn i wneud ac Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1) . Mae'n ofynnol yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2021/22.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.

3.2. Bod y Pwyllgor yn darparu sylwadau ar y gwaith a'r cynnydd yn 2021/22 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 4.2. Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd y Byrddau i ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau ei adroddiad. Mae'r adroddiad atodedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y Canllawiau hynny. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ysgrifennu mewn fformat sy'n cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys barn nifer o aelodau'r Bwrdd.
- 4.3. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.4. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.
- 4.5. Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
 - Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
 - Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

4.6. Pwrpas yr adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r 6 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd PBC yng Ngogledd Cymru yn cronni cyllid i gefnogi gweithio rhanbarthol ar draws y Rhanbarth. Mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i ategu hyn.

6.2. Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffrydiau ariannu grantiau megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd cyfalaf Tai â Gofal ac Integreiddio ac Ailgydbwysu.. Lle mae'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes asesiad effaith llesiant cyffredinol wedi'i gwblhau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ond bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer yr elfennau unigol a gynhwysir ynddo.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Bydd yr aelodau'n ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf a datblygiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol, ac eithrio

gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth ac sy'n cynnwys dinasyddion a gofalwyr.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1. Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyda'r Canllawiau ar adroddiadau blynyddol y bwrdd partneriaeth rhanbarthol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Y prif risg yw bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu mynd ymlaen gyda'r amrywiol ofynion fel sy'n ofynnol yn Rhan 9 o'r Canllawiau, a bod y bartneriaeth yn datblygu er mwyn galluogi gweithio ymhellach mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 9

10.2. Mae pwerau craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u nodi yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.




CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Atodiad 1

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**Adroddiad Blynyddol
2021/22**



Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Tudalen 109

Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)	3
1. Llywodraethu'r Partneriaethau	4
2. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Ardal	11
3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol	21
4. Edrych tuag at y Dyfodol	24
Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru	25
Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol	27



Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Mary Wimbury, Prif Weithredwr,
Fforwm Gofal Cymru

Fel Cadeirydd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad 21/22 sy'n dangos y cynnydd a wnaed ar draws y rhanbarth.

Bu hon yn flwyddyn heriol arall i'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Clywais ddweud droeon ein bod bellach mewn cyfnod o adferiad, ond gwahanol iawn fu'r realiti i'n partneriaid sydd dal i orfod delio â phroblemau dyddiol yn sgil Covid. Ni ellir bychanu'r effaith ar ein gweithlu a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau, a bu'n ystyriaeth allweddol yn ein gwaith partneriaeth.



Rwy'n eithriadol o falch o'r gwaith a gyflawnwyd o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er y pwysau difrifol. Mae'r Rhaglen Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) wedi parhau i ffynnu, a gwnaed cynnydd ffantastig yn ystod blwyddyn olaf y ddwy raglen.

Roedd yn bleser cael derbyn y gwerthusiad o'r gwaith a wnaed, a oedd yn dangos cymaint yr ydym wedi llwyddo i'w gyflawni trwy gydol cyfnodau'r rhaglenni hyn, ynghyd â'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i bobl Gogledd Cymru.

Rydym bellach yn mynd i gyfnod newydd gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol 5 mlynedd yn ysgogi newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â Chronfa Gyfalaf Tai â Gofal 4 blynedd a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso 3 blynedd. Bydd y cyllid gwarantiedig yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni drawsnewid ac integreiddio'r system yn y tymor hir ledled Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r heriau'n parhau o fewn y sector: yn enwedig cadw a recriwtio ein gweithlu. Fel Bwrdd, rydym wedi gwneud cynnydd o safbwynt ymrwymo pob partner o amgylch y bwrdd - ond mae llawer i'w wneud eto.

Hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus ar gyfer gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ynghyd ag i'r Tîm Cydweithredol Rhanbarthol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Dymuniadau gorau - Mary Wimbury.

1. Llywodraethu'r Bartneriaeth

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n amlinellu datblygiad allweddol y bartneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â chynnydd o ran gweithredu newidiadau yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol

Sefydlwyd **Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru** fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (DGCLIC) i:

-  Wella lles y boblogaeth
-  Gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau iechyd a lles

Rydym yn dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynu gwaith parhaus i drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

Mae BPRhGC yn cyfarfod yn fisol, ac mae wedi parhau i wneud hynny trwy gydol y pandemig. Cynhaliwyd y cyfarfodydd llwyddiannus hyn yn rhithiol gyda chyfleusterau cyfieithu, sydd wedi sicrhau ymgysylltiad parhaus ar gyfer aelodau.

Datganiad o Weledigaeth

Cydweithio i wella iechyd a lles pobl a chymunedau

Egwyddorion Arweiniol

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod yn addas i'r diben:

-  Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol;
-  Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau);
-  Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned;
-  Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau;
-  Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

Tudalen 112

1.2 Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adolygir Gylch Gorchwyl BPRhGC yn flynyddol, fodd bynnag, rôl hanfodol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fydd:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni ei amcanion
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Cafodd strwythur llywodraethu'r Bwrdd ei ffurfioli ym mis Ionawr 2021 ac mae'r strwythur i'w weld isod. Adolygwyd ein cylch gorchwyl ym mis Tachwedd 2020. Mae aelodau'r Bwrdd (ar ddiwedd mis Mawrth 2021) i'w gweld yn Atodiad 1.

Stori Gwenda


Mae Gwenda yn ddynes 90 oed sy'n gofalu am ei gŵr 92 oed. Bu'r ddau'n briod am 70 mlynedd ac mae ei gŵr yn dioddef o ddementia erbyn hyn. Mae hi'n ei gadw'n brysur ac yn ei annog cymaint â phosib trwy ddarllen y papurau newydd dyddiol a mynd am dro i fyny a lawr eu dreif, ac mae'n disgrifio ei gŵr fel ei "holl fyd".

Bu Gwenda'n pryderu'n ddiweddar am y modd y gellir gofalu am ei gŵr pe bai ei hiechyd ei hun yn dechrau dirywio. Mae'r pryderon hyn wedi dwysau gan ei bod i fod i gael llawdriniaeth fawr.

Trafododd ei phryderon yn helaeth gan ddweud efallai y bydd angen i'w gŵr fynd i ofal yr awdurdod lleol ar ryw adeg. Roedd ei Gweithiwr Cefnogi hefyd wedi trafod y posibilrwydd o wneud cais am becyn gofal i gynnal annibyniaeth am gymaint o amser â phosib.

Roedd Gwenda wirioneddol yn gwerthfawrogi'r amser a'r cyfle i rannu ei meddyliau a'i phryderon mewn lle cyfrinachol, dywedodd "*diolch i chi am wrando arna i*".

Mae BPRhBC yn cydnabod rôl allweddol gofaluwr o bob oed yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen eu gwerthfawrogi am y gefnogaeth a ddarperir ganddynt. Mae'r bwrdd hefyd yn cydnabod bod angen eu cefnogi yn y rôl hanfodol hon.



1.3 Datblygu Partneriaethau Allweddol

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf, er y pandemig sy'n parhau.


Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu partneriaeth, lle'n bosibl, rydym wedi cymryd rhan ym mhob un o ddigwyddiadau dysgu Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd gyda'r Gweinidog.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu ymateb lleol a rhanbarthol cydlynol i anghenion lles unigolion.

Lle'n bosibl, cafodd gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei hyrwyddo a'i arddangos ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rydym wedi gweithio'n helaeth â Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), y Gronfa Tai â Gofal (HCF) a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF).

Mae'r tîm rhanbarthol a phartneriaid wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Rhaglen Ailgydbwysu Gofal a Chymorth, ac maent yn parhau i wneud hynny.



1.4 Fforwm Mwy Na Geiriau

Nod Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mamiaith, heb orfod gofyn am hynny. Mae hyn yn arwain at well gwasanaeth a chanlyniadau ar gyfer ein poblogaeth, gan fod derbyn gwasanaeth yn yr iaith gywir yn rhywbeth y mae ar bobl ei angen.

I gyflawni hyn, nod y fforwm yw dwyn ynghyd pob partner allweddol yn y maes i rannu arferion da, i weithio gyda'i gilydd ac i ddatrys rhwystrau, a dod yn grŵp lle gall pob arweinydd ddefnyddio hyn i gyd i gefnogi'r agenda hanfodol hon ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn dilyn y pandemig Covid-19, roedd cyfle eleni i aildechrau cynnal cyfarfodydd ffurfiol y Fforwm. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniadau diddorol, yn ogystal â thrafodaethau defnyddiol mewn perthynas â rhannu arferion da ac ati.

Mae'r cynnydd o safbwynt yr agenda'n dda, gyda phob aelod o'r Fforwm yn gweithio tuag at ymgorffori gweledigaeth Mwy Na Geiriau o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae argaeledd cyrsiau hyfforddiant yn dda, ac mae nifer o ddulliau digidol ar gael i gefnogi staff.

1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig

Mae BPRhGC yn gweithredu'n unol â'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

Ar ôl derbyn diweddariad Codau a Chanllawiau Rhan 9 yn Ionawr 2020, diweddarwyd Cylich Gorchwyl BPRhGC i adlewyrchu gofynion y canllawiau

diwygiedig.

Sefydlwyd Is-grŵp Plant sy'n adrodd i'r BPRhGC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Ionawr 2022.


Pwrpas y grŵp yw:

- Darparu cyfeiriad strategol yng nghyswllt cefnogi teuluoedd a chanddynt anghenion o ran iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth.
- Gwella integreiddiad a chydweithrediad ar lefel ranbarthol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau plant ac addysg, a rhyngddynt.
- Sicrhau bod plant a theuluoedd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth yn derbyn cymorth di-dor ac integredig sy'n eu helpu i gyflawni beth sy'n bwysig iddynt.
- Gwella canlyniadau i blant a sicrhau bod gweithgareddau a gyflenwir ar draws y rhanbarth yn cefnogi'r dyhead hwn.
- Cefnogi camau ataliol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gwaethygu.

Bydd gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Bwrw ymlaen a'r blaenoriaethau a gytunwyd gan y BPRh mewn perthynas â phlant a theuluoedd, h.y. rhoi camau allweddol ar waith sy'n deillio o'r Asesiad Poblogaeth, y Cynllun Ardal, a chynlluniau strategol allweddol partneriaid.
- Datblygu ymagwedd strategol a rennir ynghyd â chynllun gweithredu rhanbarthol sy'n cynnwys set o flaenoriaethau a rennir sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd, gyda'r nod o weithio i'w cyflawni.
- Datblygu a gweithredu ymagwedd integredig, yn seiliedig ar asedau o safbwynt y system gyfan, ar draws meysydd iechyd, gofal ac addysg, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r grŵp.
- Canfod dulliau creadigol ac integredig ar lefel ranbarthol o ran gweithredu a chyflenwi gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, ac i atal plant rhag dod yn blant 'sy'n derbyn gofal'.
- Datblygu a phennu cynigion o ran buddsoddiad ar gyfer prosiectau a rhaglenni rhanbarthol, er mwyn darparu yn ôl yr ymagwedd a'r blaenoriaethau strategol ar lefel ranbarthol.
- Monitro rhaglenni ariannu sy'n cefnogi'r agenda hon a chanfod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ariannol a chynaliadwyedd ariannol lle'n briodol.
- Gweithredu fel y mecanwaith ar gyfer deall yr hyn a ddysgir sy'n cael ei rannu ar draws pob rhaglen waith berthnasol ledled y rhanbarth, sy'n anelu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae gennym Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol hirsefydlog o fewn y rhanbarth sy'n cael ei ategu gan gytundeb partneriaeth a'i ariannu gan bartneriaid. Mae'r rhaglen waith yn cyd-fynd â gwaith y Byrddau Trawsnewid, ac yn nodi lle y gallai ychwanegu gwerth / cefnogi'r agenda drawsnewid.



Y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol wedi parhau i gefnogi darpariaeth Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau darpariaeth i gefnogi strategaethau, agendâu a blaenoriaethau cenedlaethol ynghyd â'u hyrwyddo.

Cefnogwyd ymgyrch genedlaethol Gofalwn ('WeCare') i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal, trwy gyfrwng nifer o dechnegau gwahanol. Mynychwyd amryw ddigwyddiadau ar-lein gennym a drefnwyd gan bartneriaid i wneud y gorau o gyfleoedd i hyrwyddo gyfaoedd ym maes Gofal Cymdeithasol, ynghyd â chymorth ac adnoddau Gofalwn.

Crëwyd deunydd newydd hefyd i gefnogi camau i hyrwyddo'r gwaith. Cafodd 21 o fideos eu creu o astudiaethau achos, a rannwyd ar amryw blatfformau cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â mewn cyflwyniadau, a hefyd gyda gwahanol bartneriaid fel Gyrfa Cymru, DWP a Cymru'n Gweithio. Fe gafodd fideos eu coladu hefyd i gefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda neges unwaith eto i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector. Arbrofwyd â phodlediadau, gyda thîm Gofalwn Cymru'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn podlediad lleol a redwyd gan Llwyddo'n Lleol i hyrwyddo gweithio yn y sector i gynulleidfa wahanol. Caiff cylchlythyrau eu rhyddhau'n chwarterol i ddarparwyr erbyn hyn hefyd, i hyrwyddo maes Gofalwn ac i amlygu gwahanol negeseuon i ddarparwyr.

Rydym hefyd wedi treialu Mentor Cyflogadwyedd Camu i Waith i weithio gyda'r rheiny sy'n chwilio am waith neu sydd eisiau newid gyrfa. Ceir cyfleoedd i gael lleoliadau gwaith o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol i weld p'un a yw gyrfa mewn gofal yn addas iddynt hwy, ac i ddileu unrhyw rwystrau y gallant eu hwynebu yn ystod y lleoliad. Ar ddiwedd y lleoliad, y gobaith yw y byddant yn cael cyflogaeth

gyda'r darparwr a ddarparodd y lleoliad hwnnw, neu o fewn y sector gofal.

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau o safbwynt Gwaith Cymdeithasol Plant wedi canfod camau allweddol ac wedi'u rhoi ar waith i ddatrys yr heriau a'r rhwystrau hyn. Testun sylw'r gwaith hwn oedd y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, sgiliau i sicrhau parodrwydd i weithio, ynghyd â'r cymorth a roddir i ymarferwyr yn ystod eu tair blynedd gyntaf. Bu'r grŵp yn edrych hefyd ar y tâl a'r telerau a gynigir ledled Cymru, a gwnaeth argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch mynd i'r afael â'r gwahaniaethau o ran tâl fel mater cenedlaethol.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Gweithlu wrthi'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i fynd i'r afael â'r materion allweddol yng nghyswllt recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector ar hyn o bryd. Rhoddir sylw arbennig i ofynion cofrestru, lefelau tâl ac amodau a thelerau yn y sector, er mwyn dylanwadu ar drafodaethau a phenderfyniadau mewn perthynas â'r agweddau allweddol hyn ar lefel genedlaethol.

2. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Ardal

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol, cyflwynir y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion allweddol yn y cynllun ardal a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio, yn unol â'r cyfarwyddyd Rhan 9, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran defnyddwyr y gwasanaeth a gofaluwr. Mae'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau blaenoriaeth a bennwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ystod 2021-22 parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ddulliau o ran gwasanaethau integredig ar gyfer ei feysydd blaenoriaeth.

2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.

2.2 Cymru Iachach

Arweiniwyd rhaglen trawsnewid "Cymru Iachach" gan Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru. Mae'r gydweithredfa yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r chwe Awdurdod Lleol yn Rhanbarth Gogledd Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir y Fflint.

Roedd rhaglen trawsnewid Gogledd Cymru'n cynnwys 4 rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth:

-  Trawsnewid gwasanaethau cymunedol.
-  Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc.
-  Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu.
-  Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru.

Er eu bod yn amrywio yn nhermau eu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, roedd gan y pedair rhaglen nodau cyffredin:

-  Darparu ymyrraeth gynnar a gofal ataliol i helpu pobl neu deuluoedd barhau i fyw yn eu cartref arferol, ynghyd â'u cefnogi i gadw'n annibynnol am gyn hired ag y bo modd.
-  Gwella profiad pobl o wasanaethau, trwy integreiddio pethau'n well, gan leihau'r rhwystrau rhwng gwasanaethau presennol a darparu gofal di-dor.
-  Gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth ac

 Atal argyfyngau.

Er bod Covid-10 wedi effeithio ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen, llwyddwyd i'w chwblhau yn ei ffurf gychwynnol ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn llwyddiannus o safbwynt ei chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Gogledd Cymru. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r rhaglen lawn gan IPC.

2.2.1 Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol



Nod y rhaglen hon oedd trawsnewid darpariaeth gymunedol trwy ddatblygu model y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC). Trwy'r prosiect hwn, roedd y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a BIPBC, ynghyd â meddygon teulu, yn anelu at weithio gyda'i gilydd i sefydlu a gwella gwasanaethau integredig yn y gymuned. Cefnogwyd datblygiad cychwynnol y gwasanaethau hyn gan amryw ffrydiau ariannu, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig (CGI) a'r Gronfa Trawsnewid. Roedd y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn ceisio adeiladu ar waith partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes, gyda golwg ar gyflawni'r trawsnewidiad cyffredinol a fynnyd. Bwriad y rhaglen oedd darparu ymagwedd oedd yn cael ei dylunio ar lefel ranbarthol ond ei chyflenwi ar lefel lleol, ac roedd yn cynnwys y ffrydiau gwaith a ganlyn:

Ffrwd Waith 1 – Datblygu ar lefel ardaloedd lleol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu timau arweinyddiaeth lleol, ymgymryd ag asesiad o anghenion a sicrhau trefniadau llywodraethu integredig.

Ffrwd Waith 2 – Y gweithlu a chyflenwi gweithredol, sy'n seiliedig ar ddatblygu'r model TAC a gweithio mewn timau amlddisgyblaethol. Roedd y ffrwd waith hon hefyd yn arwain datblygiad cynlluniau ar gyfer rhannu cofnodion a chynlluniau gofal.

Ffrwd Waith 3 - Trawsnewid digidol, sy'n canolbwyntio ar y trawsnewidiad digidol a fynnir i gefnogi gwaith y TAC, a oedd yn cynnwys trefniadau o ran llywodraethu gwybodaeth, e-drefnu ('e-scheduling') a datrysiadau technegol, ochr yn ochr â rhaglen waith ar wahân i ddatblygu cymunedau digidol.

Ffrwd Waith 4 - Datblygu cymunedol, elfen allweddol o fodel gwasanaeth integredig y rhanbarth yw cyfraniad y trydydd sector a'r sector cymunedol o safbwynt cefnogi lles, hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogiad, ynghyd â chydlynu presgripsiynu cymdeithasol.

Ffrwd Waith 5 - Cynllunio cynaliadwy. Elfen ganolog o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yw'r dymuniad i ddatblygu a thyfu cwmpas y cyflenwad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned.

Crynodeb o'r gwerthusiad


Y disgwyliad o'r rhaglen hon oedd y byddai'r gwelliannau o safbwynt isadeiledd, diwylliant a chydweithredu yn ddigonol ynddynt eu hunain i sicrhau datblygiad pellach, heb yr angen am ragor o fewnbwn neu fuddsoddiad.

Bu'r newidiadau a roddwyd ar waith yn gyfyngedig, a gwnaed llai o gynnydd ag a ragwelwyd. Datblygwyd rhai offerynnau dadansoddi a dogfennau, ac mae angen eu nodi'n gywir a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer rhagor o waith datblygu.

Mae bwrw ymlaen â'r gwaith o ymgysylltu ag uwch reolwyr a sicrhau eu cyfraniad a'u cymorth yn hanfodol o safbwynt unrhyw ymgais bellach i ddatblygu isadeiledd gwasanaethau ymhellach. Hefyd, mae'n glir na fu'r ymagwedd Asiant Dros Newid yn gwbl lwyddiannus. O ran elfennau'r rhaglen sy'n symud yn eu blaenau ar hyn o bryd, mae angen eu goruchwyllo a'u rheoli o fewn strwythur arweinyddiaeth gweithredol y rhanbarth.

Mae angen gwell cysylltiad rhwng amryw elfennau'r rhaglen, gydag ymagwedd fwy rhanbarthol, yn hytrach nag un ar sail ardal, i gyflwyno modelau y dangoswyd y buont yn effeithiol.

2.2.2 Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc



Nod y rhaglen oedd cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc heb orfod troi at ymyriadau a gofal statudol costus a hirdymor. Roedd y rhaglen yn ymgorffori nifer o brosiectau sy'n cysylltu â'r sbectwm o angen. Roedd yr ymagwedd yn cynnwys mentrau rhanbarthol ac isranbarthol, ac arweiniwyd y gwaith datblygu gan grwpiau llywio amlasiantaethol. Cyflenwyd y rhaglen trwy dair ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar Ymyrraeth Gyffredinol, Ymyrraeth Gynnar a Dwys, a Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal. O fewn pob ffrwd waith ceir nifer o brosiectau.

Ffrwd Waith 1: Cyffredinol. Yn anelu at wella lles emosiynol, iechyd a gwydnwch plant trwy dri phrosiect, sef fframwaith strwythuredig, adnoddau digidol a rhaglen sgiliau 'Friends Resilience'.

Ffrwd Waith: Cymorth Cynnar. Tri phrosiect sy'n anelu at ddarparu cymorth cynnar i blant ag anghenion arbennig a/neu sy'n agored i niwed, a lle gall ymyrraeth gynnar atal problemau rhag gwaethygu.

Ffrwd Waith 3: Ar Ffiniau Gofal – timau asesu a chefnogi. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid trawsnewid i sefydlu ymyriadau 'ymateb cyflym' (allgymorth mewn argyfwng) i blant a phobl ifanc ar ffiniau gofal. Y grŵp targed yw plant ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol (AEY). Mae'r ymagwedd yn cynnwys

llwybrau ac ymyriadau amlddisgyblaethol a therapiwtig cadarnach, a ddylunnir i atal plant rhag dod yn rhai sy'n derbyn gofal a/neu i alluogi ailuno'r teulu, a/neu ddarparu asesiad o ansawdd uchel i lywio'r pecyn lleoli a chefnogi mwyaf priodol. Crëwyd tri gwasanaeth cymorth dwys sef:

- y gwasanaeth **Therapi Amlsystemig** yn y Dwyrain
- Gwasanaeth **Bwthyn Y Ddôl** yn ardal Canol Gogledd Cymru
- Tîm Trawsnewid Gwynedd a Môn yn y Gorllewin

Crynodeb o'r gwerthusiad:

Mae'r rhaglen ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi creu newid pendant i rai o'r plant mwyaf bregus yn y gymdeithas, yn enwedig y rheiny a oedd yn flaenrol yn dod o fewn y bylchau rhwng gwasanaethau, ac a oedd mewn perygl o orfod mynd i ofal preswyl hirdymor. Argymhellir bod y gwaith yng nghyswllt Plant a Phobl Ifanc yn parhau ac yn cael ei gefnogi gan gyllid hirdymor, gan alluogi'r gwasanaethau i ddatblygu ynghyd â chyflogi staff parhaol. Mae'r gwasanaethau yn gofyn am sefydlogrwydd, yn enwedig y gwasanaethau sydd ar ffiniau gofal, gan eu bod yn ymgorffori'r model ac yn datblygu modelau gofal preswyl.

Nid dim ond cyllid sy'n creu sefydlogrwydd hirdymor, ond hefyd y strwythurau rheoli gweithredol sy'n cefnogi'r gwasanaethau. Er y crëwyd y prosiectau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc trwy'r Gronfa Trawsnewid, ac felly fe'u rheolir trwy strwythur prosiectau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn caniatáu sefydlogrwydd hirdymor mae angen i drefniadau gweithredol y gwasanaethau symud i mewn i strwythurau gweithredol y rhanbarthau.

Roedd canfyddiadau cynnar o'r gwerthusiad o wasanaethau ar ffiniau gofal yn awgrymu bod newidiadau cadarnhaol yn digwydd o fewn teuluoedd tra bo'r ymyrraeth ar waith. Fodd bynnag, o ran rhai o'r plant a'r teuluoedd ar ben uchaf yr ystod o gymhlethdod, a chanddynt yr anghenion mwyaf, gellir argymhell rhagor o ymyriadau arbenigol. Un o'r rhwystrau posibl i gynnal cynnydd yw nad oes gan asiantaethau eraill bob amser y capasiti i ddarparu'r mewnbwn parhaus hwnnw.

Mae angen i'r ffrwd waith i wella anghenion plant a phobl ifanc o ran eu hiechyd emosiynol, eu lles a'u gwydnwch, sicrhau, wrth roi'r fframwaith a'r adnoddau ar waith, y sefydlir system ar gyfer casglu data ar allbynnau a chanlyniadau er mwyn gallu canfod eu heffaith.

2.2.3 Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu



Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithredu'r strategaeth drwy bum ffrwd waith: strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol a thechnoleg gynorthwyol.


North Wales Together
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
 Seamless services for people with Learning Disabilities
 Gwasanaethau ddi-dori i bobl ag Anableddau Dysgu

 SUT FM TRIN YN DDA	 GADWCH IMI REOLI FY MYWYD FY HUN	 HELPWCH FI I GYRRAEDD FY MICTERIAL	 BYDDWCH YN ONEST
<p><i>Dylid ierh pob unigolyn gyda pherthn ag unigolus</i></p> <p>"Mae fy mharchu i yn golygu parchu fy ngofod, fy mhaisau, fy mhenderfyniadau a'm personolaedd"</p> <p>"Gwrandwch amaf, a threulwch amser yn dod i'm haarnod"</p> <p>"Byddwch yn glân"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYBCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid cyfransbu mewn modd agored, oyston a byrne Pedwch â dehyddio jargon Dylid dogelu a pharchu gwybodaeth personol a cynhyrnodol pobol Dylid dehyddio fhwrtor mewn modd broddol Dylid gwiro sut y dymuna bobol gael eu cyflwro azyne Byddwch yn brydion a gweithredwch ar unffwy gartiau yr ydych wedi dweud y byddwch yn eu cyffwyd 	<p>Mae llaw, llawer, rheolwrth ac anffwythweth wrth wraidd pobolth a wraeth</p> <p>Rydym yn ymffwydu mewn gwethio ar y cyd</p> <p>"Hoffwn gael dewis le hoffwn i fyw a phwy sy'n fyw gyda mi"</p> <p>"Helpwch fi i wneud yr ffyn yr wyf yn ei ddyrnwro, a gwrandwch amaf"</p> <p>"Mae amaf eiddau teimio'n bwysig a gallu gwneud penderfyniadau fy hun"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYBCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid grymuro, amnog a galluogi pobol gyda angen gofal a chetogweth i wneud pethau drostyne eu hunan ac i wneud eu penderfyniadau eu hunan Dylid cethogi unigolion i wneud y gorau o'u penderfyniadau a'u meolaeth dros eu bywyddau 	<p>Rydym yn darparu gofal sy'n cwethwethwetho ar yr unigolyn, gan rhoi unigolyn wrth wraidd pobolth a wraeth ei'n helpu i gyrraedd eu potensial</p> <p>"Dysgwch genhnyf, a chetwch gyronabod fy nghyrtolerau"</p> <p>"Helpwch fi i ddyngu pethau newydd"</p> <p>"Inowch dagon, ond nid gormod o gethogweth imi"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYBCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddwch yn barod i gyffwyd raggau cadarnhad, gan eethono canffyniadau raggau yn gwr i erall Cetwch ffyn ff atfal a phroblemau newydd a phroblemau sy'n ddblygu yn greaddoli Pedwch â maddwi am gartgymeriadau fel rhyweth negyddol, meodffwch amadnyne fel cyffe i ddyngu a thryfu Byddwch yn gymnes, yn garedig, yn emporthig, yn adffwydwy ac yn dastudol yn eich gweithredolaedd 	<p>Rydym bob amser yn onest ac yn dryfloyw ac nid oes amono ni olin dweud pan fydd rhyweth yn mynd o'i le</p> <p>Rydym yn hunanffwydoli ac yn ffyffwro'n meolaedd ar y gweth yr ydyne yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud a'n eethon yr ydyne yn ei onest ar y rhal sy'n cael eu cethog</p> <p>"Mae amaf eiddau i bobol fod yn onest a mi, a dweud y gwyr wrthyf"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYBCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn dyngu gan erall ac yn marnu gwybodaeth ac arffw ora Cetio adborn gan gydwethweth deffwydwy gwasanaeth a'u teuluolaedd, ffyffwro arffw a dyngu ooli wrtho Bod yn dagon dewr i god eich las a herio erall le mae ganodyn rhuw brydion am ansawdd neu ddogweth y gofal sy'n cael ei darparu

Bu 2021/2022 yn flwyddyn brysur iawn unwaith eto i **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd**. Fe wnaeth holl aelodau'r tîm ddal i weithio o bell a llunio strategaethau i oresgyn yr anawsterau fel y gellid gweithredu prosiectau'n rhithwir, gan gefnogi partneriaid i gyflawni eu hamcanion mewn gwahanol ffyrdd.

Crynodeb o'r gwerthusiad

Mae'r Rhaglen wedi codi proffil anableddau dysgu ar lefel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nid yw anghenion y grŵp hwn o bobl bob amser wedi cael eu cydnabod neu eu trin gyda'r un lefel o bwysigrwydd â grwpiau eraill o fewn y boblogaeth. Mae'n bwysig eu bod yn parhau i gael eu gweld fel blaenoriaeth, a bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer y ffrydiau gwaith sy'n parhau i sicrhau y gellir cyflawni dyheadau dinasgyddion o ran cael 'bywyd cyffredin'.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar [wefan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd](#), sy'n cynnwys gwybodaeth am y prosiect, fideo o'i uchafbwyntiau, a dogfen sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022.

2.2.4 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl



Mae Rhaglen 'iCAN' ("Independent, Connected, Active, Networked") / 'FEDRA' i' yn dod o fewn y strategaeth eang hon. Ei nod cyffredinol yw rhoi system gofal a diwylliant mwy integredig ac arloesol ar waith sy'n atal, ond lle bo angen, yn ymateb yn effeithiol i gyfnodau o anghenion ac

argyfyngau iechyd meddwl aciwt. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn ceisio hybu 'beth sy'n gweithio' a chyflymu'r trawsnewid ar draws Gogledd Cymru i greu system gofal brys integredig flaenllaw o fewn y sector. I ategu hyn, crëwyd llwybr FEDRA' i integredig sy'n hybu gwaith cydweithredol o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, partneriaid statudol a sefydliadau trydydd sector, a rhyngddynt.

Mae cydrannau cynnig FEDRA' i wedi newid a datblygu yn ystod y Rhaglen. Maent wedi datblygu i greu'r cydrannau allweddol a ganlyn:

- FEDRA' i: Hybiau - 8 hwb cymunedol a leolir ym mhob un o'r prif drefi ar draws y rhanbarth, sy'n gweithio gyda phartneriaid o'r trydydd sector i gynnig cymorth y gellir cael mynediad iddo'n rhwydd mewn amgylchedd diogel, a gellir cyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau eraill.
- FEDRA' i: Gofal Sylfaenol - Prosiect peilot sy'n lleoli Therapyddion Galwedigaethol arbenigol mewn meddygfeydd, sy'n gallu cynnig gwasanaeth cwnsela, cyngor, cyfeirio ymlaen ac atgyfeirio pobl at wasanaethau eraill.
- FEDRA' i: Weithio – Cymorth i gael cyflogaeth.
- FEDRA' i: Digidol – Mynediad at gefnogaeth ar gyfer hybu lles meddyliol trwy gyfrwng amryw 'apiau' ac adnoddau ar-lein.

Crynodeb o'r gwerthusiad

Yn ystod 2021/22, mae Rhaglen FEDRA' i / iCAN wedi datblygu fframwaith casglu data manwl sy'n dangos tystiolaeth glir bod llawer o unigolion yn cael mynediad at holl gydrannau'r gwasanaeth a'u bod yn cael effaith sylweddol a mesuradwy ar eu lles meddyliol. Yn ôl arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws rhaglen FEDRA' i, roedd 70% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn meddwl ei bod yn hawdd cael mynediad i wasanaethau FEDRA' i, eu bod yn gyfleus, yn amserol, a'u bod yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rheolaeth dros eu sefyllfa.

Roedd yr un arolwg yn darparu tystiolaeth o effaith gwasanaethau FEDRA' i ar les meddyliol unigolion, a'u bod yn eu hatal rhag bod angen gwasanaethau eraill mwy dwys. Er enghraifft, roedd 71% o'r ymatebwyr i'r arolwg (yr oeddynt yn teimlo fod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt) wedi canfod bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i aros allan o'r Ysbyty. Yn yr un modd, roedd 44% yn teimlo bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i gael allan o'r Ysbyty gyn gynted ag yr oeddynt yn gallu, ac roedd 81% wedi canfod bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i aros adref o fewn eu cymuned leol.

O'r sefydliadau sy'n bartneriaid a'r rhanddeiliaid, roedd 70% o'r rhai a ymatebodd i arolwg y gwerthuswyr yn deall eu rôl, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn teimlo bod eu rôl yn glir o fewn llwybr diffiniedig. Roedd tua 60% o'r rhanddeiliaid proffesiynol yn teimlo eu bod yn deall gwasanaethau FEDRA' i ac roeddynt yn hyderus i atgyfeirio unigolion at wasanaethau FEDRA' i.

Fodd bynnag, dim ond 30% oedd yn cytuno bod ymagwedd system gyfan ar waith o safbwynt gweithio gyda phobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, a dim ond 24% oedd yn teimlo byd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt gan wasanaethau FEDRA' i yn briodol.

Mae rhaglen waith FEDRA' i yn cefnogi pobl yn y gymuned sydd â phroblemau iechyd meddwl, maent yn rhoi cymorth i bobl gael gwaith, a thrwy gyfrwng cymorth FEDRA' i o safbwynt gofal sylfaenol, maent yn cefnogi meddygon teulu.

2.2.5 Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod y ganolfan yw cydlynu gwaith ymchwil, arloesi a gwelliant yng Ngogledd Cymru i fod yn sail ar gyfer dulliau integredig newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun Cymru Iachach.

Yn 2021-22, lanswyd y [casgliad o syniadau da](#) a [chronfa ddata ymgysylltu](#) ar ein gwefan. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu i rannu arferion da a gwella cydlyniant gweithgareddau ar draws Gogledd Cymru.

Roeddem wedi cefnogi rhaglenni rhanbarthol gyda dyluniad arolwg, gwerthusiadau, chwiliadau data a llenyddiaeth i'w helpu i ddeall beth sy'n gweithio a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal arolygon o'r hyn y mae rhieni ei angen, ynghyd â chwiliadau cynhwysfawr o adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc, er mwyn cefnogi fframwaith newydd i gefnogi iechyd a lles emosiynol.

Roeddem wedi cynnal cyfweiliadau, arolygon a mapio adnoddau i ganfod beth sydd angen digwydd i gefnogi ymchwil ac arloesi a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn llywio sut mae'r ganolfan yn datblygu dros y flwyddyn nesaf.

Roeddem wedi gweithio'n agos gyda chanolfannau rhanbarthol eraill a sefydliadau cenedlaethol i rannu, hybu a datblygu syniadau newydd. Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi cynyddu dilynwyr ein cyfrif Twitter i 300, ac roedd 150 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant.

Am ragor o wybodaeth, gweler [Adroddiad Blynnyddol 2021/22](#), dilynwch ni ar Twitter [@NW_RICH](#) / [@ NW_RICH](#) a/neu [cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen](#).

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022

Llwyddwyd i gwblhau adolygiad llawn o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag arweinyddion o fewn yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth yr Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

I baratoi'r adroddiad, casglwyd gwybodaeth a data, edrychwyd ar ystadegau, siaradwyd â'n cymunedau a defnyddiwyd ystod eang o wybodaeth a gafodd ei choladu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn ein helpu i ddatblygu ein blaenoriaethau rhanbarthol ac i gynllunio a gwella gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

[Gweler yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar wefan y Gydweithredfa ranbarthol](#)

2.3 Grŵp Llywio Dementia Gogledd Cymru

Yn ystod 2021-22, roedd y Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol wedi ehangu ei gwmpas i oruchwylio gwaith datblygu a chyflawni (1) Strategaeth Dementia Gogledd Cymru, (2) Safonau Dementia Cymru Gyfan a (3) Gwella Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS) Rhanbarthol.

Comisiynwyd darn o waith hefyd i edrych yn benodol ar broblemau pobl sy'n byw â dementia o safbwynt y Gymraeg a natur wledig rhanbarthau Gogledd Cymru a Phowys.

Strategaeth Dementia Gogledd Cymru

Yn ystod 2021-22, canfu'r grŵp llywio 12 blaenoriaeth o fewn cynllun gweithredu Strategaeth Dementia Gogledd Cymru. Llwyddwyd i gyflawni 6 o'r rhain yn gyfan gwbl, a gwnaed cynnydd da o ran y 6 arall. Ymhlith yr enghreifftiau o gyflawniadau yn ystod 2021-22 y mae:

- ✓ Sefydlu gwasanaeth asesu clyw rhanbarthol i bobl sy'n cael mynediad i wasanaethau cof.
- ✓ Cyflawni statws Cyfeillgar i Dementia gan bedwar o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, gyda grwpiau llywio ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Mae dau Awdurdod Lleol yn dal wrthi'n gweithio tuag at gyflawni'r statws hwn.
- ✓ Cynhyrchu 28 o fideos cefnogol Mentro Gyda'n Gilydd er mwyn cefnogi pobl i ennyn hyder ac ailgysylltu â'u cymuned yn dilyn y pandemig.
- ✓ Profi ymagwedd newydd arloesol ym maes gofal a chymorth ar gyfer dementia o safbwynt ymddygiadol, trwy dreialu Cymorth Dadansoddwr Ymddygiadol Cymhwysol.
- ✓ Datblygu pecyn cymorth hyfforddi a datblygu'r gweithlu gyda Gwelliant Cymru, i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Fframwaith Gwaith Da.

Rhaflen Waith Parodrwydd a Gweithredu Safonau Dementia Cymru Gyfan

Gwnaed cynnydd da yn ystod y cyfnod parodrwydd ar gyfer gweithredu Safonau Cymru Gyfan, er bod Covid, pwysau'r gaeaf a phwysau sylweddol parhaus ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu y bu rhaid oedi cryn dipyn o'r gwaith hwn rhwng mis Tachwedd ac Ebrill.

Gwella Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS)

Gwnaed cynnydd ardderchog o ran y gwaith o wella'r MAS. Mae enghreifftiau o gyflawniadau 2021-22 yn cynnwys:

- ✓ Cynyddu'r ddarpariaeth o gymorth cyn ac ar ôl cael diagnosis gan gynnig gwasanaeth cyson trwy gyfrwng llwybr MAS integredig a gomisiynwyd ar lefel ranbarthol, ac sy'n cael ei gyflenwi gan bedwar darparwr o'r trydydd sector.
- ✓ Cychwyn y gwaith o fodelu'r galw a'r capasiti o ran gwasanaeth o fewn clinigau cof, a datblygu cynlluniau ar gyfer clirio'r ôl-groniad o ran rhestrau aros.


- ✓ Cwblhau adolygiad pen desg o fodlau cyflenwi clinigau cof.
- ✓ Rhoi camau tymor byr ar waith i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau mewn clinigau cof ynghyd â'r niferoedd sy'n aros am gyfnodau hir, er enghraifft oriau ychwanegol a goramser ym maes Nyrsio, Therapi Galwedigaethol, Seiciatreg ac Awdioleg.

2.4 Y Gronfa Gofal Integredig

Yn ystod 2021-22, buddsoddwyd cyfanswm o £18.92 miliwn o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) mewn 125 o brosiectau ledled ein rhanbarth. Gwariwyd ychydig dros £6.2 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddwyd £2.6 miliwn i gefnogi prosiectau gan sefydliadau trydydd sector.

Mae'r grwpiau canlynol yn rhai sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio, ac mae'n rhaid i bob un o raglenni rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig ymgymryd â hwy yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:

- 🌈 Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a salwch tymor hir, gan gynnwys dementia;
- 🌈 Pobl ag anableddau dysgu;
- 🌈 Plant ag anghenion cymhleth; a
- 🌈 Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.



